**Beirniadaeth Cystadleuaeth 318**

**Cyfansoddi Gosodiad dan 25 oed:** Cyfansoddi gosodiad i unrhyw unawd yn Rhestr Testunau Eisteddfod yr Urdd

**Beirniad: Gwennant Pyrs**

Daeth dau osodiad i law –hen dro na fyddai mwy wedi mentro, o gofio'r bri sydd ar y cwrs gosod blynyddol a gynhelir gan y Gymdeithas Cerdd Dant.

Mae 'Bwn bwn' wedi dewis gosod y geiriau 'Mae gen i freuddwyd', Gwyn Thomas ar gainc 'Ffridd goch', Gwennant Pyrs.

Mae'r corfannu'n gywir ac yn ei le'n daclus drwyddo draw, a'r cyfalawon ar y cyfan yn ganadwy. Efallai nad yw nodau'r gyfalaw bob amser yn cyd weddu â chordiau'r gainc e.e. mae ychydig o anghytsain ym mar 6 pennill 1 ac fe anghofiwyd rhoi arwydd naturiol i gyd fynd â'r cord olaf hefyd ym mar 6, pennill 2. Unwaith eto ym mar 8, pennill 3, bar 12, pennill 3 a 4, nid yw'r nodau'n gweddu i'r cord sydd yn y gainc. Ond mae yma sail a dealltwriaeth o brif hanfodion gosod cyfalaw. Dalier ati.

Dewisodd 'Cain' y geiriau 'Llaw', Tudur Dylan Jones ar gainc 'Manhyfryd', Gwennant Pyrs. Mae'r gyfalaw yn priodi'n gerddorol â'r gainc ac yn anelu at ambell air allweddol ac uchafbwynt o fewn y gerdd.

Yr unig fan gwan o safbwynt y corfannu rwy'n anghytuno âg o yw bar 31/32 ar gair 'biano'. Deusill i mi yw'r gair ac nid tri fel sydd yma. Nid oes anghen ychwaith roi marc metronôm ar ddechrau'r gosodiad, mae'r telynorion wedi hen arfer â dilyn tempo'r cystadleuwyr. Ond dyma osodiad canadwy a thaclus .

Rhoddaf y wobr gyntaf i 'Cain' a'r ail wobr i 'Bwn Bwn'

Gwennant Pyrs